

# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)  Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Llinos Medi Huws ac A M Jones.
<b>WRTH LAW:</b>	Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorwyr Vaughan Hughes ac R Meirion Jones
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Dim

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol:-

“O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriadig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

### 3 PENODI STAFF

#### Prif Weithredwr

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y Prif Weithredwr presennol wedi cadarnhau ei bwriad i ymddeol o'i swydd ddiwedd mis Mawrth 2022.

**PENDERFYNWYD:-**

- Hysbysebu'r swydd Prif Weithredwr yn allanol;
- Y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person i gyd-fynd ag Atodiad 1 yr adroddiad;
- Cyflog y swydd i'w hysbysebu yn unol â'r cyflog presennol o £120,526 y flwyddyn gyda'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2021 i'w ychwanegu unwaith y bydd wedi'i gytuno;
- Yr amodau a thelerau i fod fel yr amlinellir yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn;
- Y swydd i gael ei hysbysebu am gyfnod olynol o bedair wythnos;
- Y swydd i gael ei hysbysebu yn unol â pholisi arferol y Cyngor ar gyfer swyddi Prif Swyddogion, sef drwy wefan yr Awdurdod, drwy ficro-safle penodol ynghyd ag ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys gwefannau Indeed a lleol.cymru, ym mhapur

newydd The Guardian, yng nghylchgrawn Golwg, a'i hysbysebu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghyd â hysbysiad uniongyrchol i'r pum prif gyngor arall yng ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru;

- Ar ôl i'r hysbyseb gau, bydd dau Swyddog o'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn llunio rhestr fer yn annibynnol ar ei gilydd;
- Ar ôl cwblhau'r gwaith o lunio rhestr fer bydd y Pwyllgor yn cyfarfod eto er mwyn cymeradwyo ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ac unrhyw gamau pellach sydd eu hangen fel rhan o'r broses benodi. Bydd angen i'r broses ddethol derfynol gynnwys cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS  
CADEIRYDD**